Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Mai 14, 2019 am 7.30 o'r gloch.

Presennol: Cynghorwyr: Simon Evans (Cadeirydd), Geraint Rowlands, Elfed ap Gomer, Carwyn Evans, Llinos Williams, Gethin Williams, Gareth Ellis, John Hughes. Hefyd Heddwas Gareth Jones, Peredur Jenkins a Henry M. Edwards.

Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd trafodaeth â Heddwas Gareth Jones ynglŷn â goryrru wrth Ysgol Llanelltyd. Yn yr amser roedd ar y safle mae nifer yn gyrru dros 30mya gydag un yn gwneud 47mya. Mae am wneud mwy o archwiliad i'r mater ac am wneud ymoliadau i gael cerbyd Gan Bwyll ar y safle. Roedd yr aelodau o'r farn mi ddylai'r rhybudd cyflymder fod yn 30mya trwy Llanelltyd a ddim 40mya.

1. Ymddiheuriadau:

Nid oedd ymddiheuriadau.

2. Dewis Swyddogion

Cadeirydd: Simon Evans.
Is Gadeirydd: Carwyn Evans

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams
Neuadd Bentref Bontddu (1): Janet Edwards
Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.
Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis

Croesawyd Simon Evans fel Cadeirydd newydd y Cyngor. Diolchwyd Geraint Rowlands am fod yn Gadeirydd am gyfnod o bum mlynedd.

3. Datgan diddordeb:

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ebrill 9, 2019

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ebrill 9, 2019

Nid oedd materion yn codi.

6. Materion Ariannol

a. Siec (11/4/2019) am £1,412.50 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab. Taliad at Isobel Nanney Williams claddedigaeth cyntaf £650 + hawl claddu £480 = £1,130 + 25% = £1,412.50.

b. Bil (3/5/2019) am £450 oddi wrth John A. Owen am agor bedd ar gyfer gwasanaeth ar 12/4/2019.
Penderfynwyd talu'r bil.

c. Dogfennau (19/4/2018) polisi yswiriant y Cyngor oddi wrth Zurich am y cyfnod 01/6/2019 i 31/5/2020. Y tâl i'w adnewyddu yw £622.89. (Tal flwyddyn ddiwethaf oedd £618.26.).
Penderfynwyd talu'r bil.

ch. Llythyr (12/4/2019) oddi wrth Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau ei benodi fel Archwilydd Mewnol.

d. Llythyr (25/4/2019) oddi wrth Uned Archwilio Mewnol yn rhoi gwybod bydd ein dogfenau yn cael eu casglu ar Mai 7, 2019.

dd. Llythyr (16/4/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chanllawiau i gynorthwyo Clercod o'r broses i dalu lwfansau i Gynghorwyr yn ol Panel Annibynnol Cymru. Mae ymoliadau yn cael ei wneud os mae'r lwfans £150 yn rhydd o unrhyw dreth.

e. Llythyr (25/4/2019) oddi wrth Un Llais Cymru gyda ffurflen i'r aelodau ei ddefnyddio i dynnu allan o dderbyn y Lwfans Cynghorwyr.

f. Bil (30//4/2019) am £348.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd at gasglu gwastraff masnachol o Fynwent Llanelltyd o 1/4/2019 i 31/3/2020.

Penderfynwyd derbyn y gwasanaeth yng nghyfarfod Mawrth 12, 2019, Eitem 9.a. yn y Cofnodion.
Penderfynwyd talu'r bil.

g. Llythyr (24/4/2019) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Cymru. Maent angen cymorth ariannol.
Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

h. Balans yn y banc ar 29 Ebrill, 2019: £7,669.52.

7. Mynwent Llanelltyd

a. Pryd cafodd Mr John Arfon Owen (torrwr beddi) cyfarfod â'r Clerc ar 10/4/4019 daeth i'n sylw bod y fainc rhoddwyd Mr P. Leeds wedi dirywio ac mewn cyflwr ni ddylai gael ei ddefnyddio. Anfonwyd llythyr (11/4/2019) i Mr Leeds yn rhoi gwybod am hyn ac iddo symud y fainc o'r fynwent. Rhoddwyd y fainc fel rhodd yn lle talu'r ffi i osod cofeb (Cofnodion Gorffennaf 14, 2015, Eitem 6.a.).

b. Hefyd, gyda'r fynwent yn llenwi, roedd awgrym gwneud llwybr ar ochr y wal i baratoi claddedigaethau yn rhan arall o'r fynwent.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Penderfynwyd gwneud ymoliadau â'r Awdurdod i gael gwybod beth yw eu polisi ynglŷn â lleoli 'Clamping Pods'.

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (11/4/2019 oddi wrth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd. Mae'n cynwys Hysbysiad o Gais Deddf Trwyddedu 2013 - Trwydded Eiddo – Tyn y Groes Hotel, Ganllwyd. Os mae sylwadau maent eu hangen erbyn 9/5/2019.

b. Llythyr (16/4/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn croesawu ni yn aelod. Amgáu mae ffurflen sydd angen dau gynrychiolydd i gynrychioli'r Cyngor yng nghyfarfodydd chwarterol Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru.
Penderfynwyd i Elfed ap Gomer a Gareth Ellis fod y cynrychiolwyr.

c. Llythyr (24/4/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd giat yn cael ei osod ar lwybr wrth Pont Figra, Bontddu.

ch. Llythyr (3/5/2019) oddi wrth Hawliau Tramwy Meirionnydd, Cyngor Gwynedd. Maent yn bwriadu gosod giâtiau fydd yn croesi Llwybr Cyhoeddus Rhif 65. Mae hyn oherwydd cais maent wedi ei gael gan RSPB ac er mwyn rheoli stoc fferm. Maent angen ein sylwadau ar y cais.
Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.
Penderfynwyd rhoi gwybod nid oes gwrthwynebiad i'r cais (8/5/2019).

d. Llythyr (3/5/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod cynhelir Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau ar ddydd Mercher, Mai 22 am 7.00yh. Amgáu mae'r Agenda a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd cynhaliwyd yn Chwefror 2019, a Chofnodion Cyfarfod Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol a gynhalwyd ar Faes y Sioe Frenhinol, Llanfair ym Muallt ym mis Mawrth 2019.

dd. Llythyr (2/5/2019) oddi wrth Addysg, Cyngor Gwynedd. Maent angen mwy o gynrychiolwyr ar Banel Apêl Mynediad ac ar Banel Apêl Gwaharddiad Disgyblion. Maent angen enwebiadau gan unigolion lleyg a chan lywodraethwyr ysgolion. Os mae gan aelodau ddiddordeb rhowch wybod i melerimairgriffith@gwynedd.gov.uk

e. Llythyr (13/5/2019) oddi wrth Mrs Carolyn Evans, Pwyllgor Neuadd Llanelltyd a Pwyllgor Crefftau Meirionnydd. Mae'n cwyno am gyflwr y bin baw cŵn sydd wrth yr hen Swyddfa Bost. Mae ei gaead wedi rhydu ac mae hi'n dymuno i ni gael bin newydd. Hefyd am angen bin baw cŵn yn y maes parcio y Neuadd.
Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd i roi bin newydd wrth yr hen Swyddfa Bost. Mater i'r Neuadd yw rhoi bin yn eu maes parcio.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Nid oedd adroddiad.

11. Materion Brys

a. Penderfynwyd i'r aelodau gwneud ymoliadau am aelod i lenwi sedd wag yn Bontddu.

b. Penderfynwyd roi gwybod i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

i. asesu diogelwch canghennau coed sy'n tyfu dros y ffordd rhwng Pont Llwyntryfer a Pont Cwm Mynach.

ii. llenwi twll sydd ar yr ochr chwith o'r ffordd i hen bont Llanelltyd, ac sydd wrth y cyffordd i Lanfachreth.

c. Penderfynwyd i Peredur Jenkins wneud ymoliadau gyda Cyngor Gwynedd ynglŷn â Thoiledau Bontddu.